**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 17EG RHAGFYR 2019 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, B. Barton, D. Bradley C. Matthews, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, M. Worth.

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley Clerc y Dref
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**313/19 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N. Bastow (Y Maer), Mrs M. Jones (Dirprwy Faer) ag M. Tasker.

**314/19 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganodd y Cynghorydd G. Baker ei chysylltiad â chais cynllunio O/46860 fel cymydog / cyfaill i'r ymgeisydd.

**315/19 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26ain Tachwedd 2019 yn adroddiad cywir.***

**316/19 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol:**

**a) Cofnod 264/19(b) – Gerddi'r Frenhines:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb gan Matthew Frankcom yn gadael i'r Pwyllgor wybod bod yr argymhelliad i gynnwys 'cŵn ar dennyn' yng Ngerddi'r Frenhines am gael ei gynnwys yn yr adroddiad drafft sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod nifer o lythyrau o gefnogaeth wedi cael eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Cyngor Sir

**b) Cofnod 264/19 - Deall Lleoedd Cymru:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad a chyflwyniad i'r Aelodau am ei phresenoldeb yn lansiad y wefan. Casglwyd y wybodaeth o gyfrifiad 2011 ac mi fydd yn cael ei ddiweddaru pob 10 mlynedd. Mae'r gwefan yn rhoi cymhariaeth gyda threfi eraill o'r un math ac yn cynnwys ystadegau defnyddiol ac mi fydd hyn yn arf hwylus wrth ddarparu cynllun y gymuned.

**c) Cofnod 264/19 – Gweithgor Sul y Cofio:**

Rhoddodd y Clerc diweddariad am ddyddiad arfaethedig Gŵyl y 40au a dathliadau Diwrnod VE/VJ. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod y Lleng

Prydeinig ag Ysgol Rydal yn ystyried trefnu teyrnged fach ar ddiwrnod VE ger y Gofeb Rhyfel ac efallai yn dychwelyd i'r Clwb yn ddiweddarach i gynnig 'Lwncdestun i'r Genedl'. Fe gynhelir gwasanaeth eglwysig yn Eglwys St Paul's ar ddydd Sul 10fed Mai. Mae tîm digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) o blaid symud Gŵyl y 40au i'r 15fed / 16eg Awst er mwyn cael cyd-fynd a Diwrnod VJ, ond bydd angen cefnogaeth gan y busnesau lleol i'r bwriad i newid y dyddiad. Bydd hwn yn cael ei roi gerbron y Siambr Fasnach yn Ionawr ac fe obeithir bydd rhai o gynrychiolwyr y busnesau yn cytuno i ymuno a'r Pwyllgor sy'n trefnu. Fe nodwyd hefyd bod Gŵyl Uke-0-Bay fel arfer yn cael ei gynnal ar y penwythnos hwn, ond gobeithir y byddant yn gallu ymuno yn y dathliadau.

***Penderfynwyd gwahodd y Cynghorydd Paul Richards neu gynrychiolydd arall i ymuno a'r Pwyllgor sy'n trefnu, ar ran Uke-a-Bay.***

**ch) Cofnod 265/19(b) –Cabanau Aros Bysiau:**

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar rhwng y Clerc a Gethin Jones, CBS Conwy a rhoddwyd diweddariad ar lafar i'r Aelodau. Fe nodwyd bod y cabanau aros bysiau wedi cael eu glanhau yn Hydref ac fe wnaed arolwg ohonynt yn ystod yr haf. Mewn perthynas â'r hawliad yswiriant parthed Caban Aros Bysiau Ffordd Hesketh, dywedodd y Clerc bod CBS Conwy yn parhau i weithio ar yr achos. Fodd bynnag, roedd digon o arian yn y gyllideb a glustnodwyd gan y Cyngor Tref i gael un newydd os na fydd yr hawliad yn llwyddo.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc cadarnhau'r archeb gyda ChBS Conwy i gael caban newydd yn Ffordd Hesketh wrth ddisgwyl am ganlyniad yr achos am yr hawliad yswiriant.***

**d) Cofnod 265/19(i) - Ymgynghoriad ar Strategaeth Cartrefi Gwag:**

Cyflwynodd y Clerc yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau. Gofynnodd y Cynghorydd Barton i Swyddogion cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol. Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor bod siaradwr eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod naill ai yn Ionawr neu Fawrth ac unwaith y derbynnir cadarnhad o'r dyddiad, fe anfonir gwahoddiad.

***Penderfynwyd argymell bod y Clerc i wahodd Swyddog i ddod i roi anerchiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor sydd ar gael.***

**317/19** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol a dderbyniwyd oddi wrth GBSC er gwybodaeth / i gael ei ystyried;

**a) Rhybudd o Gais am Orchymyn Gwahardd Aros yn:**
Rhodfa Colwyn, Llandrillo yn Rhos

*Penderfynwyd nodi'r Gorchymyn Gwahardd Aros.*

**b) Cynnig i Enwi dwy Stryd:**

Cyflwynodd y Clerc cynnig i enwi strydoedd. Cytunodd y Pwyllgor ar y ddau enw cyntaf: Clos Emlyn a Cwrt y Rhos.

***Penderfynwyd ysgrifennu at GBSC i gadarnhau dewis y Cyngor.***

**c) Prosiect Dychmygu:**

Cyflwynodd y Clerc cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Tachwedd ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**ch) Promenâd Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc y cynlluniau manwl o'r gwaith gwelliant oedd am ddechrau yn Ionawr a gorffen erbyn y Pasg. Roedd y cynlluniau yn golygu lledu'r palmentydd. Bydd lle parcio yn cael ei greu ar ochr y traeth a llwybr rhanedig i feicwyr / cerddwyr 3.5 medr o led yn cysylltu'r llwybr beicio o'r dwyrain (neu Bromenâd Cayley) i'r gorllewin o Rhos Point. Fe osodir saith o golofnau goleuadau ac fe gadarnhawyd, yn dilyn cais gan BID Colwyn, bydd y rhain yn cael eu hatgyfnerthu i alluogi gosod goleuadau garlantau arnynt. Roedd y cynlluniau ar gael ar gais.

**318/19 <u>Llywodraeth Cymru:</u>**

a) Cyflwynodd y Clerc ymateb y Cyngor Tref i'r arolwg ar Randiroedd ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.
b) Cyflwynodd y Clerc copi o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y diweddariad ar y Polisi a'r Canllawiau ar Bryniant Gorfodol yng Nghymru. Cytunodd yr Aelodau gyda'r cynigion.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cyflwyno ymateb y Pwyllgor.***

c) Cyflwynodd y Clerc copi o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad, Llifogydd ag Erydiad yr Arfordir ac fe ystyriwyd hwn gan yr Aelodau. Am nad oedd angen ymateb tan Ionawr, gofynnwyd i'r Aelodau dod a'u sylwadau i'r cyfarfod nesaf.

***Penderfynwyd gohirio ymateb tan y cyfarfod nesaf.***

**319/19 <u>Ymddiheuriad:</u>**

Cyflwynodd y Clerc llythyr o ymddiheuriad, trwy Heddlu Gogledd Cymru, oddi wrth aelod o'r cyhoedd parthed achos o chwistrellu paent o gwmpas y dref. Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor bod yr unigolyn wedi gadael yr ardal erbyn hyn. Croesawyd yr ymddiheuriad gan yr Aelodau ac fe'i nodwyd.

**320/19 <u>Ffordd Dinerth:</u>**

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost oddi swrth y Cynghorydd J. Pearson ynglŷn â darn diffaith o dir yn Ffordd Dinerth. Roedd yn ceisio cefnogaeth gan y Pwyllgor i gymryd cyfrifoldeb i'w gynnal a'i gadw yn y dyfodol pe bai CBS

Conwy yn tacluso'r ardal. Holodd yr Aelodau am berchnogaeth y tir a dywedwyd wrthynt ei bod ym mherchnogaeth breifat. Mynegwyd pryder byddai angen cefnogaeth y tirfeddiannwr a bod angen fwy o wybodaeth am gynlluniau i'w dirlunio a'r costau o'i gynnal a'i gadw yn y dyfodol.

***Penderfynwyd argymell cefnogaeth mewn egwyddor, wrth ddisgwyl am fwy o wybodaeth.***

**321/19** **<u>Cynllunio</u>:**

**a** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b** ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 18/11/19 hyd at 1/12/19.***

**c** Cyflwynodd y Clerc rhestr o wrthwynebiadau / pryderon (er gwybodaeth yn unig) oddi wrth breswylydd parthed y datblygiad arfaethedig ar Safle Cartref Nyrsio Larkfield ar Ffordd Elwy, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**322/19** **<u>Trwyddedau:</u>**

Derbyniodd yr Aelodau'r rhestr o geisiadau am drwyddedau ac fe'u nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm ……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 17TH DECEMBER 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr C Brockley, Chairman
Cllrs: G Baker; B Barton; D Bradley); C Matthews; J Pearson; M Tasker;
S Williams; M Worth

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

**193/19 <u>Welcome and Apologies for Absence</u>:**

The Chairman welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllr N Bastow (Mayor); Mrs M Jones (Deputy Mayor) and M Tasker.

**194/19 <u>Declarations of Interest</u>**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. Cllr G Baker declared an interest with regard to planning application 0/46860, as a neighbour/friend of the applicant.

**195/19 <u>Minutes</u>**:

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 26th November 2019.***

**196/19 <u>Matters Arising from the Minutes</u>:**

**a) Min 264/19(b) – Queen's Gardens:**

The Clerk submitted a response from Matthew Frankcom advising the committee that the recommendation to include dogs on leads in Queen's Gardens will be included in the draft report, which is currently being written. The Clerk informed the members that several letters of support for the recommendation had been received from County Councillors.

**b) Min 264/19 – Understanding Welsh Places:**

The Clerk gave a brief report on the website launch that she had attended and gave a presentation to the members. The information on the website had been gathered from the 2011 census and would be updated every 10 years. The website gives comparisons to other similar towns and contains useful statistics and will be a helpful tool for preparing the community plan.

**c) Min 264/19 – Remembrance Sunday Working Group:**

The Clerk gave an update regarding the proposed date of the 40's Festival and VE/VJ Day celebrations. She informed the committee that the British Legion and Rydal school are considering organising a small VE day tribute at the War Memorial possibly going back to the Club afterwards for the 'Toast of the Nation'. There would also be a church service in St Pauls on Sunday 10th May. The CCBC Events team are in favour of moving the forties event to 15/16th August to coincide with VJ Day but just need to get local businesses support for the proposed change of date. This will be put to the Chamber of Trade in January and hopefully a few business representatives will agree to join the organising committee. It was noted that the Uke-a Bay Festival is also usually held this weekend, but hopefully could be in the celebrations.

***Resolved to invite Cllr Paul Richards or another representative to join the organising committee on behalf of Uke-a-Bay.***

**d) Min 265/19(b) – Bus Shelters:**

The Clerk had recently met with Gethin Jones,Conwy CBC and gave the members a verbal update. It was noted that the bus shelters had all been cleaned in October and a survey had been carried out during the summer. With regard to Hesketh Road Bus Shelter and the ongoing insurance claim, the Clerk advised the members that Conwy CBC are still chasing that up, however there is enough money in the Town Council's earmarked budget to replace the shelter if the claim is unsuccessful.

***Resolved to authorise the Clerk to confirm an order with Conwy CBC for the replacement shelter for Hesketh Road, pending a decision being made on the insurance claim.***

**e) Min 265/19(i) – Empty Homes Strategy Consultation:**

The Clerk submitted the response received from Conwy CBC which was noted by members. Cllr Barton requested that the Officer be invited to a future Council meeting. The Clerk informed the Committee that a speaker had already been arranged for either the January or March meeting and once this date had been confirmed, an invitation could be sent.

***Resolved to recommend that the Clerk invites the Officer to speak at the next available meeting of the council.***

**197/19 <u>Conwy CBC</u>:**

The Clerk submitted, for information/consideration, the following correspondence from CCBC:

**a) Notice of Requests for a Prohibition of Waiting Order:**
Colwyn Avenue, Rhos on Sea

***Resolved to note the Prohibition Waiting Order.***

**b) Proposal for Naming of two Streets:**

The Clerk submitted a street naming proposal. The Committee agreed on the first two choices: Clos Emlyn and Cwrt y Rhos.

***Resolved to write to Conwy CBC to confirm the council's choices.***

**c) IMAGINE Project**:

The Clerk submitted minutes of the meeting held on 26th November which were noted by members.

**d) Rhos Promenade:**

The Clerk submitted the detailed plans for the improvement works, which were due to start in January and finish by Easter. The plans involved widening of pavements. Car parking would also be created on the beach side and a 3.5m wide the shared cycle/pedestrian path would link to the cycle path to the east (or Cayley Prom) West of Rhos Point. Seven new lamp columns will be installed ad it was confirmed, following a request by Colwyn BID that these would be strengthened to enable festoon lighting to be installed. The plans were available on request.

***198/19*** **Welsh Government:**

a) The Clerk submitted the Town Council's response to the survey on Allotments, which was noted by members.
b) The Clerk submitted a copy of the Welsh Government's Consultation on the updated Policy and Guidance on Compulsory Purchase in Wales. Members agreed with the proposals.

***Resolved to request that the Clerk submits the Committee's response.***

c) The Clerk submitted a copy of Welsh Government's Consultation on Technical Advice Note 15: Development, Flooding and Coastal Erosion which was considered by members. As the response was not due until January, members were asked to bring their observations to the next meeting.

***Resolved to defer the response until the next meeting.***

**199/19 Apology:**

The Clerk submitted a letter of apology received via North Wales Police from a member of the public with regard to spray painting around the town. The Clerk informed the Committee that the resident had now left the area. The Committee welcomed and noted the apology.

**200/19** **Dinerth Road**:

The Clerk submitted an email from Cllr J Pearson regarding a piece of neglected land on Dinerth Road. He was seeking support from the Committee to take responsibility for future maintenance if the area was tidied up by Conwy CBC. Members queried the ownership of the land and were informed it is currently in private ownership. Concern was expressed that the support of the landowner would be required and more information needed about plans for landscaping and future maintenance costs.

***Resolved to recommend support in principle, pending further information being provided.***

**201/19** **Planning:**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.***

**b)** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 18/11/19 – 01/12/2019***.

**c)** The Clerk submitted and a list of objections/concerns (for information only) from a resident concerning the proposed development at Larkfield Nursing Home Site on Elwy Road which was noted by members.

**202/19** **Licensing**:

Members received and noted the list of licensing applications.

The meeting closed at 7.25p.m. ……………………….
Chairman